



Cynllun Gweithredu Glasbrint Cyfiawnder Ieuenctid

Mae gwella'r bartneriaeth rhwng gwasanaethau datganoledig a heb eu datganoli er mwyn cyflenwi cyfiawnder ieuenctid yng Nghymru yn flaenoriaeth a rennir gan Lywodraethau'r DU a Chymru. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn nodi ymrwymiad ar y cyd i archwilio'r argymhellion a wneir gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Maes thematig	Awgrym (carreg filltir)	Cam(au) yn cynnwys:	Amserlen
Atal	Ceisio cadw cyllid a roddwyd yn benodol ar gyfer gweithgarwch y Tîm Troseddau Ieuenctid i atal a dargyfeirio cyn y llys trwy'r Gronfa Hybu Ymgysylltiad Cadarnhaol	<ul style="list-style-type: none"> Ar ôl cyhoeddi adroddiad gwerthuso'r Grant Plant a Chymunedau ym mis Mai 2019, canfod cyllid wedi'i sicrhau er mwyn helpu i gyflenwi uchelgeisiau atal, ymyrraeth gynnar a dargyfeirio. 	Tymor byr
	Datblygu dull cenedlaethol ar gyfer gweithgarwch atal y Tîm Troseddau Ieuenctid wedi'i dargedu, a sicrhau ei fod wedi'i ymgorffori mewn cyd-fodel fframwaith ar gyfer Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Mapio'r mesurau presennol ynghylch dulliau casglu data, gofynion adrodd ac ymyriadau wedi'u targedu a gyflenwir yn lleol ac yn genedlaethol, gan gynnwys gwaith atal cyfiawnder ieuenctid, gweithgarwch gwaith ieuenctid a gwasanaethau awdurdod lleol, i bennu arfer da wrth gyflenwi canlyniadau lles. Ystyried a fyddai datganiad safle ledled y system ar gyfer Cymru ynghylch atal cyfiawnder ieuenctid yn briodol. 	Tymor byr
	Monitro gweithgarwch atal yn well er mwyn dangos yr effaith a gwella'r sail dystiolaeth	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio'r potensial ar gyfer defnyddio deunyddiau presennol Dyfed Powys i ddarparu tystiolaeth well, fwy cyson o weithgarwch ac effeithiolwydd 	Tymor byr
	Alinio dulliau adrodd/amodau cyllid ar draws cyfraniadau Llywodraeth Cymru, y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau at y gweithgarwch atal a dargyfeirio cyn y llys, i leihau biwrocratiaeth	<ul style="list-style-type: none"> Dadansoddi cyfraniadau at waith atal gan gynlluniau blynyddol cyfiawnder ieuenctid y Tîm Troseddau Ieuenctid a chanfod cyfleoedd i lywio sut gellir bwrw ymlaen â chyllid wedi'i gronni ac alinio. 	Tymor byr
Dargyfeirio cyn y llys	Cynorthwyo'r dulliau presennol o ddargyfeirio cyn y llys trwy Bureau a Divert (Triage yn flaenorol)	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i gefnogi ac ariannu gwaith dargyfeirio cyn y llys i leihau nifer y bobl ifanc sy'n mynd i'r system cyfiawnder ieuenctid am y tro cyntaf Mae cadw rheolaeth dros gyllid a dylanwad yn hanfodol ar gyfer gwireddu amcanion Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill yn y system cyfiawnder ehangach. 	Parhaus
	Datblygu arferion dargyfeiriol	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda'r heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau i amlygu, datblygu a rhannu arfer da a sicrhau dull cyson ledled Cymru Archwilio p'un a yw atebion cymunedol/camau adfer ieuenctid yn cael eu llywio'n gyson gan yr Heddlu i Dimau Troseddau Ieuenctid Gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau a Chomisiynydd Plant Cymru i sefydlu hawliau plant pan roddir cam adfer, gan gynnwys dulliau diogelu cyfreithlon a chynghor a roddir i blant Archwilio'r potensial ar gyfer prosiect dargyfeirio canabis, yn unol ag argymhellion Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi 	Tymor byr
Y gymuned	Gweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod yn cael eu hamlygu pan fydd plant yn dod i sylw'r heddlu, a rhoddir gwybod i'r Timau Troseddau Ieuenctid	<ul style="list-style-type: none"> Mapio'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer cofnodi profiadau niweidiol yn ystod plentynod, gan gynnwys Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a gwneud argymhellion ar gyfer rhannu gwybodaeth a datblygu polisiâu ymhellach ar gyfer plant 	Tymor byr
	Rhoi Rheoli Achosion Uwch ar waith yn genedlaethol ar gyfer plant cymhleth a risg uchel sydd dan oruchwyliaeth Timau Troseddau Ieuenctid	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i ddatblygu, cefnogi a gwerthuso'r cynllun peilot Rheoli Achosion Uwch mewn pedwar Tîm Troseddau Ieuenctid ledled de Cymru (Caerdydd, Cwm Taf, Bro Morgannwg a'r timau oedd yn rhan o Fae'r Gorllewin yn flaenorol), hyd at fis Mawrth 2020. Cefnogi a datblygu gwaith yn yr ardaloedd prawf (Blaenau Gwent Caerffili, Sir Gaerfyrddin a Sir y Fflint) i ymgorffori ymarfer Rheoli Achosion Uwch Cyflwyno hyfforddiant wedi'i lywio gan drawma i bob Tîm Troseddau Ieuenctid yng Nghymru, gan gynnwys datblygu deunyddiau i helpu'r sefydlu. Datblygu cymwysterau cytûn: ymwybyddiaeth sylfaenol lefel 1 o brofiadau niweidiol yn ystod plentynod, dealltwriaeth lefel 2 o'r Model Gwella ar ôl Trawma neu'r ddamcaniaeth sy'n sail i ymarfer wedi'i lywio gan drawma ac ymarferydd Rheoli Achosion Uwch lefel 3. 	Tymor canolig
	Cynorthwyo'r sector cyfiawnder ieuenctid gydag adnoddau, hyfforddiant a chymwysterau i gyflenwi ymarfer wedi'i lywio gan drawma	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i gyflenwi hyfforddiant ar ymarfer wedi'i lywio gan drawma er mwyn gwella gwybodaeth ymarferwyr neu wella wedi'i lywio gan drawma yn y gymuned ac yn y ddalfa. 	Tymor byr
	Alinio'r trefniadau gyda Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	<ul style="list-style-type: none"> Tîm Troseddau a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda'r tîm Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i archwilio sut gellir bwrw ymlaen i wneud hyn. 	Tymor canolig

Ailsefydlu a Phontio	Mabwysiadu cynnig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Ailsefydlu Adeiladol	<ul style="list-style-type: none"> Ystyried sut i fabwysiadu cynnig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid, gan ystyried arweiniad cenedlaethol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac Adolygiad Farmer 	Tymor byr
	Mabwysiadu cynnig y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid ar gyfer Ailsefydlu Adeiladol	<ul style="list-style-type: none"> Bydd Tim Troseddu a Chyfiawnder Llywodraeth Cymru'n datblygu cynigion i integreiddio'r argymhelliad hwn â'r ffrwd gwaith sy'n cefnogi troseddwr (oedolion) a'u teuluoedd yn y Fframwaith i gefnogi newid positif ar gyfer y rheini sydd mewn risg o droseddu yng Nghymru 2018-2023. 	Tymor byr
	Ailymweld â chynigion i gyflwyno partneriaethau ailsefydlu ac ailintegreiddio mewn deddfwriaethau	<ul style="list-style-type: none"> Archwilio ac ymgynghori â phartneriaid ailsefydlu ynghylch partneriaethau ailsefydlu ac ailintegreiddio. Adolygu cynigion (sy'n cyflwyno deddfwriaeth ynghylch partneriaethau ailsefydlu ac ailintegreiddio) o'r cynllun cyflenwi ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf, sef y Strategaeth Cyfiawnder Ieuencid ar y cyd ar gyfer Cymru, a gyhoeddwyd yn 2014. 	Tymor byr
	Datblygu dulliau wedi'u llywio gan drawma i'r rheiny sy'n pontio i wasanaethau oedolion	<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i amlygu ymarfer wedi'i lywio gan drawma, fel rhan o adfywio ehangach ar yr arweiniad ar bontio yng Nghymru. 	Tymor byr
Y ddalffa	Gosod pob plentyn sy'n byw yng Nghymru sy'n cael dedfryd neu remând o garchar mewn unedau bach yng Nghymru, ar sail model therapiwtig, wedi'i lywio gan drawma, gan gyflenwi gwasanaeth prif ganolfan a lloerennau i'r gymuned ar gyfer achosion cymhleth a risg uchel, dan oruchwyliaeth y Timau Troseddau Ieuencid a phan fydd yn ailsefydlu	<ul style="list-style-type: none"> Dadansoddi'r gofyniad a'r rhagolygon anghenion ar gyfer Cymru 	Tymor byr
	Datblygu safle diogel ar gyfer y ddalffa i fodloni anghenion plant y mae angen pob math o ofal diogel arnynt: archwilio modelau sy'n darparu gwasanaeth cyfiawnder a lles integredig, gofali iechyd meddwl mewnol, dadwenwyno ar gyfer camddefnyddio sylweddau neu leoli ar orchymyn lles diogel, a chynnwys gwlaŷu cyfiawnder, gan alluogi gwasanaeth cyson, wedi'i lywio gan drawma ar gyfer plant, p'un a ydynt yn y gymuned neu yn y ddalffa.	<ul style="list-style-type: none"> Amlygu opsiynau posibl er mwyn bodloni anghenion ac ymchwilio i ddull comisiynu, gosod, gweithredu, cyflwyno gwasanaethau arbenigol, monitro a goruchwyllo ar gyfer cyfleuster diogel Sicrhau cyllid a chymeradwyaeth i'w weithredu 	Tymor canolig
Goruchwyllo systemau	Datblygu model ar gyfer gwasanaeth cyfiawnder Ieuencid cenedlaethol, wedi'i lywio gan drawma ar gyfer Cymru	<ul style="list-style-type: none"> Pennu manylion y model, gan gynnwys cyllid, pwerau, cyfrifoldebau a llywodraethiant er mwyn cryfhau'r trefniadau partneriaeth presennol a chynnal gwasanaeth cyfiawnder Ieuencid wedi'i noddi ar y cyd, ac sydd wedi'i berchnogi ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. 	Tymor byr
		<ul style="list-style-type: none"> Adolygu opsiynau ar gyfer setiau data'r dyfodol, a dulliau asesu i gynorthwyo system sydd wedi'i llywio gan drawma. 	Tymor canolig
		<ul style="list-style-type: none"> Ymgysylltu ag Arolygiaethau i sicrhau bod y gofynion arolygu'n cyd-fynd â'r model cyflenwi system gyfan sydd wedi'i lywio gan drawma 	Tymor hir
Allwedd Amserlenni			
Tymor byr	1 flwyddyn 2019-2020		
Tymor canolig	2 flynedd 2020/21 – 2021/22		
Tymor hir	Dros 3 blynedd 2022/2023		